WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Tachwedd 2010

Awduron: Malcolm Latham ac Ena Lloyd Cyf: 425A2010

# Arlwyo mewn Ysbytai

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Er bod trefniadau arlwyo Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn arddangos llawer o arferion da, nid oes cysondeb yn y modd y caiff y rhain eu gweithredu mewn ysbytai a rhwng un ysbyty a'r llall. Deillia'r anghysondeb hwn o gyfathrebu gwael rhwng y gwahanol grwpiau o staff sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, a all effeithio ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

## Cynnwys


**Crynodeb ac Argymhellion** 4

**Adroddiad Manwl**

**Cynllunio strategol a threfniadau rheoli** 9

Mae gwasanaeth arlwyo Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) yn cael ei gynllunio'n effeithiol ond gellid ei gryfhau drwy waith craffu mwy trylwyr gan y Bwrdd

**Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** 11

Mae BIP yn caffael bwyd yn effeithiol ac mae'n gyffredinol dda am reoli cost cynhyrchu ac arlwyo bwyd, ond mae'n gwastraffu llawer gormod o fwyd mewn rhai meysydd

**Dosbarthu bwyd i'r ward** 20

Mae BIP yn darparu bwyd o ansawdd da i gleifion er y gellid gwella profiad cleifion drwy newid rhai arferion presennol a gwella cyfathrebu rhwng y staff mewn rhai meysydd

**Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad** 24

Mae rhai wardiau'n well nag eraill am sicrhau bod arlwyo a maeth yn cefnogi gwellhad cleifion gydag un ward yn perfformio gryn dipyn yn waeth na'r hyn sy'n dderbyniol

**Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth** 28

Mae boddhad cleifion ag arlwyo mewn ysbytai yn gymharol isel a chan nad yw'n rhannu'r safbwyntiau y mae'n eu casglu gan gleifion rhwng grwpiau o staff, mae BIP yn colli cyfle i ddysgu a gwella

**Atodiadau**

Y dull archwilio 31

Cymharu costau 33

Profiad cleifion 39

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn rhan hanfodol o ofal cleifion ac mae prydau bwyd maethlon, o safon, yn gwneud cyfraniad allweddol at y broses o adsefydlu a gwella cleifion. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gynllunio a chydgysylltu nifer o brosesau'n drwyadl gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Rhaid cael cyfathrebu da ar draws y grwpiau amrywiol o staff sy'n rhan o'r gwaith, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.
2. Dylai'r canlyniad fod yn wasanaeth arlwyo hyblyg, cost-effeithiol sy'n cynnig dewis da o brydau bwyd maethlon i ateb gofynion deietegol penodol cleifion. Mae angen i statws maeth cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n gywir, a dylid rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwyta a mwynhau eu prydau bwyd mewn amgylchedd sy'n eu hannog i fwyta.
3. Mae pwysigrwydd bwyd ysbyty i helpu gwellhad cleifion wedi cael ei gydnabod mewn nifer o fentrau gan Lywodraeth y Cynulliad. Y fenter ddiweddaraf yw Llwybr Gofal Maeth Ysbytai a datblygiad siartiau cofnodi bwyd Cymru gyfan i gofnodi cymeriant bwyd a diod.  Hefyd, cafwyd rhaglen hyfforddi *Gwella Gofal Maethol* i bob rheolwr ward. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi menter *Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu* a gynlluniwyd i rymuso prif nyrsys wardiau i gael mwy o reolaeth ar ddigwyddiadau ar eu wardiau. Caiff arferion gorau mewn gofal maeth eu gwreiddio ymhellach drwy Safonau Gofal Iechyd penodol ac offeryn archwilio lefel y ward, *Hanfodion Gofal*.
4. Er bod rhai enghreifftiau calonogol o arfer da'n gysylltiedig ag arlwyo mewn ysbytai, dangosodd gwaith gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2001-02 fod angen ailadrodd y rhain yn ehangach a chryfhau arferion mewn nifer o feysydd. Ers hynny, mae data blynyddol ar berfformiad cyfleusterau a gasglwyd gan Stadau Iechyd Cymru wedi tynnu sylw at amrywiadau sylweddol rhwng ysbytai o ran costau dyddiol bwydo claf, a phroblemau parhaus gyda gwastraffu bwyd – gadawyd tua 880,000 o brydau heb eu cyffwrdd yn 2008-09. Awgrymodd data Stadau Iechyd Cymru hefyd fod y broses o gyflwyno arfer da cydnabyddedig, fel amser bwyd wedi'i ddiogelu a dadansoddiad maethol o fwydlenni yn anghyson.
5. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu felly ei bod hi'n bryd cynnal gwaith archwilio pellach ar arlwyo mewn ysbytai i adolygu cynnydd ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, ac i archwilio i ba raddau y mae arferion a nodwyd yn Llwybr Gofal Maeth Ysbytai yn cael eu cyflwyno.
6. Ceisiodd ein hadolygiad bennu a oedd ysbytai yng Nghymru'n darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy'n cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig. Edrychodd ein gwaith archwilio ar 'gadwyn fwyd' arlwyo ysbyty o'r gwaith cynllunio a chaffael i ddosbarthu'r bwyd i'r ward a rheoli amser prydau bwyd.

7. Mae ein gwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) wedi cynnwys gwaith maes ar safleoedd Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC) ac Ysbyty Athrofaol Llandoche (YALI), ac ymweliadau â'r wardiau canlynol (Ffigur 1).

**Ffigur 1: Wardiau yr ymwelwyd â hwy**

| Ysbyty | Ward | Arbenigedd |
|---|---|---|
| YAC | A1 Link a'r Uned Asesu Meddygol | Derbyniadau Meddygol Brys |
| | A2 | Llawfeddygaeth Gyffredinol |
| | C6 | Meddygaeth Gyffredinol |
| YALI | E4 | Gofal Henoed a Gofal Coronaidd |
| | E7 | Gofal Henoed |
| | W2 | Llawfeddygaeth y Colon a'r Rhefr |
| | W6 | Gofal Anadlol |

8. Mae canfyddiadau ein harchwiliad yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata ariannol yn ymwneud â'r gwasanaeth arlwyo ar gyfer cleifion a rhai nad ydynt yn gleifion, a hefyd ar arolygon cleifion sy'n crynhoi eu profiad o fwyd ysbyty. Darperir manylion pellach am y dull archwilio yn Atodiad 1.

9. Er bod trefniadau arlwyo BIP yn arddangos sawl agwedd ar arfer da, ein casgliad cyffredinol yw nad yw'r rhain yn cael eu gweithredu'n gyson mewn ysbytai na rhwng un ysbyty a'r llall. Deillia'r anghysondeb hwn o gyfathrebu gwael rhwng y gwahanol grwpiau o staff sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, a all effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae gwaith cynllunio BIP ar gyfer y gwasanaeth arlwyo yn effeithiol ond gellid ei gryfhau drwy waith craffu mwy trylwyr gan y Bwrdd;
- mae BIP yn caffael bwyd yn effeithiol ac, yn gyffredinol, mae'n dda am reoli cost cynhyrchu bwyd ac arlwyo, ond mae'n gwastraffu llawer gormod o fwyd mewn rhai meysydd;
- mae BIP yn rhoi bwyd o ansawdd da i gleifion, er y gellid gwella profiadau cleifion drwy newid rhai arferion presennol a gwella cyfathrebu rhwng staff mewn rhai meysydd;
- mae rhai wardiau'n well nag eraill am sicrhau bod arlwyo a maeth yn cefnogi gwellhad cleifion gydag un ward yn perfformio gryn dipyn yn waeth na'r hyn sy'n dderbyniol; ac
- mae boddhad cleifion ag arlwyo mewn ysbytai yn gymharol isel a chan nad yw'n rhannu'r safbwyntiau y mae'n eu casglu gan gleifion rhwng grwpiau o staff, mae BIP yn colli cyfle i ddysgu a gwella.

10. Wrth ffurfio'r casgliadau hyn, nodwyd bod y gwasanaeth arlwyo a'r ffordd y mae BIP yn darparu ei wasanaethau yn cynnwys nifer o gryfderau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mae'r gwasanaeth wedi'i seilio ar strategaethau a pholisïau cadarn a ddatblygwyd gyda mewnbwn gan yr holl grwpiau staff priodol;
- mae deietegwyr yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o gynllunio bwydlenni ac asesu cynnwys maeth y ryseitiau safonol wedi'u costio sy'n cael eu defnyddio gan BIP;
- mae trefniadau cynhyrchu a chludo bwyd yn golygu fod prydau bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da, ac yn parhau felly wrth i'r bwyd gael ei weini;
- mae'r trefniadau arlwyo ar y ward yn YAC yn hyblyg ac yn cefnogi dewis i gleifion;
- ceir tystiolaeth fod sgrinio cleifion i ganfod anghenion maethol ar adeg eu derbyn i'r ysbyty yn arfer sydd wedi sefydlu'n dda ac mae cymeriant bwyd a diod yn cael ei fonitro drwy ddefnyddio offer nyrsio addas;
- cynhyrchir cynlluniau gofal maethol i gleifion sydd eu hangen a cheir systemau ar gyfer helpu i nodi pa gleifion sydd ag anghenion maethol penodol neu angen cymorth i fwyta;
- cofnododd cleifion lefelau cymharol uchel o foddhad ynglŷn â'r bwyd a'r gwasanaeth arlwyo a geir yn YALI.

11. Mae yna nifer o feysydd allweddol y gellid eu gwella gan gynnwys y canlynol:

- Roedd lefelau gwastraff bwyd a gofnodwyd yn ystod yr archwiliad yn bryderus o uchel, ac mewn dwy ward yr ymwelwyd â hwy, roedd tua 75% o'r bwyd a gyrhaeddai'r ward yn cael ei wastraffu, naill ai fel prydau bwyd heb eu gweini, neu fel gwastraff ar y plât. Dengys gwastraff o'r fath fod galw pendant am brosesau mwy effeithlon i archebu prydau a rheoli maint dognau.
- Mae llawer o wardiau heb fabwysiadu amserau bwyd wedi'u diogelu;
- Mewn rhai wardiau, gellid gwneud rhagor i baratoi amgylchedd y ward ar gyfer prydau bwyd i gleifion allu mwynhau eu bwyd.
- Mae angen adolygu hyfforddiant i arlwywyr ar y ward er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o faeth a'r prosesau a roddwyd ar waith gan BIP i ddiwallu anghenion maeth cleifion unigol.
- Mae angen adolygu trefniadau dosbarthu prydau i gleifion yn YALI er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn y pryd cywir bob amser.
- Er bod arfer da cydnabyddedig yn bodoli, fel defnyddio hambyrddau coch i nodi pa gleifion sydd ag anghenion deietegol penodol, nid yw hyn yn cael ei weithredu'n gyson drwy'r wardiau.
- Mae gan staff arlwyo a staff nyrsio drefniadau ar wahân ar gyfer casglu barn cleifion ar y gwasanaeth arlwyo ac ni ddatblygwyd mecanweithiau ar gyfer dod â'r wybodaeth hon ynghyd i ddarparu darlun cyfannol a fyddai'n cefnogi'r gwaith o gynllunio'r gwasanaeth.

- Er bod YAC yn gallu arddangos llawer o arferion da cydnabyddedig, mae ein harolygon wedi dangos fod boddhad cleifion â bwyd ysbyty ar y safle yn gymharol isel a bod angen gwneud mwy o waith i ddeall y rhesymau am hyn yn llawn.

12. Mae'r adroddiad manwl sy'n dilyn yn rhoi mwy o wybodaeth am ganfyddiadau'r archwiliad a arweiniodd at y casgliadau a nodwyd uchod. Mae pob adran o'r adroddiad manwl yn nodi'r arfer da yr edrychai'r archwilwyr amdano wrth gyflawni eu gwaith maes, a'r hyn a welwyd ar waith. Hefyd, ceir gwybodaeth am yr arferion a welwyd ar wardiau unigol yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr archwiliad.

13. Mae'r argymhellion sy'n codi o'r archwiliad wedi'u nodi isod.

## Argymhellion

14. Cododd nifer o argymhellion o'r adolygiad hwn. Cânt eu rhestru isod.

| | |
|---|---|
| **Cynllunio strategol a threfniadau rheoli** | |
| A1 | Sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth fwy ystyrlon am y gwasanaethau arlwyo er mwyn gallu craffu, rheoli risgiau a monitro perfformiad yn effeithiol. |
| A2 | Fel rhan o'r broses o rymuso rheolwyr wardiau yn ôl trefniadau Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu, sefydlu fforwm hanfodion gofal effeithiol sy'n sicrhau bod materion rheoli maeth yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod yr enghreifftiau niferus o arfer da ac arloesi yn cael eu rhannu. |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | |
| A3 | Cyflwyno polisi clir ar gymorthdalu i bennu'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. |
| A4 | Gwella'r trefniadau cyfredol ar gyfer monitro gwastraff bwyd fel eu bod yn rhoi adlewyrchiad cywir o brydau heb eu gweini, gan nodi'r potensial i wella systemau presennol fel bod modd gosod targedau gwastraff bwyd. |
| **Dosbarthu bwyd i'r ward** | |
| A5 | Cynnwys maeth sylfaenol yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff arlwyo ar y ward er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd a'r angen i ddilyn gweithdrefnau'r ward. |
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad** | |
| A6 | Cyflwyno amserau bwyd wedi'u diogelu ar bob ward lle byddai hynny'n briodol a sefydlu trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. |
| A7 | Fel rhan o'r strategaeth maeth ac arlwyo newydd, gweld beth fyddai manteision gwneud mwy o ddefnydd o gynorthwywyr deietegol. |
| A8 | Fel rhan o'r strategaeth arlwyo newydd, ceisio cryfhau a chyflymu'r gwasanaeth amser bwyd drwy sicrhau bod mwy o staff ar gael neu drwy gael y staff nyrsio i gymryd mwy o ran. |
| A9 | Trwy'r fforwm hanfodion gofal, monitro effeithiolrwydd y system hambwrdd coch, y dull o'i weithredu a'i ddatblygiad, a'r systemau goleuadau traffig newydd. |

| | |
|---|---|
| A10 | Sefydlu trefniadau monitro sy'n mesur cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maeth yn rheolaidd, ynghyd ag effeithiolrwydd y broses o adolygu siartiau. |
| A11 | Gwella'r offeryn asesu maeth i gynnwys asesiad o iechyd y geg a'r gallu i gyfathrebu. |
| A12 | Yn YALI, gwella prosesau cyfathrebu a threfniadau monitro ansawdd y gwasanaeth arlwyo i sicrhau bod cleifion yn derbyn y pryd o fwyd cywir ar gyfer eu hanghenion deietegol bob amser. |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth** | |
| A13 | Gwella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y gwasanaeth arlwyo a rheolwyr wardiau drwy gynnwys y trefniadau presennol sy'n cael eu defnyddio i gael barn cleifion ar y gwasanaeth. |
| A14 | Cynnwys cleifion yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth arlwyo gan adeiladu ar brofiadau cadarnhaol diweddar a gafwyd o'u cynnwys wrth werthuso bwyd piwrî a bwyd meddal. |

## Cynllunio strategol a threfniadau rheoli

15. Mae gwasanaeth arlwyo BIP yn cael ei gynllunio'n effeithiol ond gellid ei gryfhau drwy waith craffu mwy trylwyr gan y Bwrdd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
    - mae yna strategaethau a pholisïau addas i'w cael ar arlwyo a maeth a chawsant eu datblygu gydag arweiniad cryf a chyfraniad effeithiol gan y staff arlwyo a chlinigwyr
    - mae'r trefniadau cynllunio bwydlenni yn gadarn gyda mewnbwn deietegol effeithiol; ac
    - mae lle i wella amseriad ac ansawdd y wybodaeth mae'r Bwrdd yn ei derbyn am risgiau a pherfformiad y gwasanaeth arlwyo.
16. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliadau hyn.

**Tabl 1: Cynllunio strategol a threfniadau rheoli**

| Arfer da | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynllunio Gwasanaeth** | | |
| Mae gan BIP strategaethau a pholisïau clir ar arlwyo a maeth. | ✓ | Roedd gan yr Ymddiriedolaeth flaenorol Strategaeth Arlwyo a Pholisi Maeth ac Arlwyo, ac mae'r rhain bellach yn cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu trefniadau rheoli newydd BIP a'r newid yn yr hinsawdd ariannol. |
| Mae cynllun y fwydlen yn adlewyrchu'r strategaeth a'r polisi. | ✓ | Mae gwasanaethau deietegol ac arlwyo BIP yn cydweithio'n agos i sicrhau bod cynllun y fwydlen yn adlewyrchu'r strategaeth a'r polisi.<br>I gefnogi'r trefniadau hyn, lluniodd yr Adran Ddeieteg ganllawiau cynhwysfawr ar gynllunio bwydlenni. Mae hyn yn arfer da sy'n golygu bod elfennau a chynhwysion pob bwydlen yn cael eu hasesu, eu dilysu a'u monitro.<br>Yn ddiweddar, datblygodd BIP fwydlen newydd gyda dewis o 42-eitem dros saith diwrnod i gynnig mwy o ddewis. Y bwriad ar gyfer y fwydlen newydd hon sy'n cael ei threialu ar hyn o bryd, yw gwella dewis i bob claf a'r sawl sydd angen deiet ethnig, bwyd meddal a bwyd llysieuol. |
| Mae deietegwyr a chlinigwyr yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o ddatblygu polisi a strategaeth a chynllunio bwydlenni. | ✓ | Datblygwyd y Polisi Maeth ac Arlwyo gan Bennaeth yr Adran Ddeieteg gyda chefnogaeth grŵp llywio sy'n cynnwys deietegwyr, staff nyrsio a staff arlwyo.<br>Mae'r Strategaeth Arlwyo newydd yn cael ei datblygu gan y Pennaeth Gweithrediadau gyda chefnogaeth grŵp llywio sy'n cynnwys deietegwyr, staff nyrsio a staff arlwyo. |

| Arfer da | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae’r Strategaeth yn nodi’r dull mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o gynhyrchu bwyd. | ✓ | Seiliwyd prif fodel BIP ar Uned Brosesu Ganolog (wedi’i lleoli yn YAC) sy’n darparu prydau bwyd wedi’u rhewi i’w hailgynhyrchu drwy ei Uned Gynhyrchu Ganolog (UGG).<br>Mae’r model cyflenwi yn amrywio, gyda YAC yn ail-baratoi bwyd mewn ceginau ar y wardiau, ac YALI yn ail-baratoi prydau bwyd mewn cegin ganolog ac yn swmp-ddosbarthu’r bwyd i’r wardiau. Mae’r model yn YALI yn cymryd lle’r model traddodiadol blaenorol o weini bwyd ar blatiau a oedd yn bell o fod yn arddangos arfer da yn ôl archwiliad 2000. |
| Tystiolaeth o gynllunio gweithlu yn ôl y galw am staff arlwyo. | ✓ | Ar hyn o bryd, mae gan yr UGG amserlen gynhyrchu saith diwrnod o flaen y fwydlen. Mae’n cynnig digon o hyblygrwydd ac yn galluogi lefelau staffio sy’n adlewyrchu cynhyrchiant.<br>Yn y ddau ysbyty, mae’r rheolwyr arlwyo’n hyderus fod trefniadau staffio presennol y maes arlwyo yn hyblyg ac yn adlewyrchu anghenion y gwasanaeth. |
| **Trefniadau rheoli** | | |
| Mae atebolrwydd gweithredol dros arlwyo wedi’i nodi’n glir. | ✓ | Nodwyd yn glir mai Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Nyrsio (CGGN) yw’r aelod o’r Bwrdd sy’n gyfrifol am faeth a’r gwasanaeth arlwyo. Mae’r trefniant hwn yn welliant ar drefniadau’r Ymddiriedolaeth flaenorol lle roedd y cyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng y Cyfarwyddwr Nyrsio a’r Cyfarwyddwr Gweithrediadau. |
| Mae’r Bwrdd yn derbyn digon o wybodaeth am berfformiad ac ymarfer mewn perthynas ag arlwyo a maeth. | ✗ | Yn y gorffennol, dim ond adroddiad blynyddol ar y gwasanaeth a dderbyniai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Trosolwg lefel uchel iawn o’r gwasanaeth oedd yr adroddiad hwn gydag ond ychydig iawn o ddangosyddion perfformiad i fesur cynnydd ac anaml y byddai’n nodi’r risgiau posibl i’r gwasanaeth.<br>Mae’r CGGN newydd yn bwriadu adolygu a chryfhau’r trefniadau adrodd presennol. |
| Mae grŵp amlddisgyblaethol wedi’i sefydlu i oruchwylio’r modd y mae’r gwasanaeth arlwyo yn cael ei gyflawni. | ✓ | Mae dau grŵp amlddisgyblaethol yn cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio datblygiad y strategaeth a’r polisi a’r modd y cânt eu cyflawni, sef y Grŵp Strategaeth Arlwyo a’r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo. |
| Penodwyd nyrs arwain i helpu i weithredu’r strategaeth a sicrhau arferion maeth da. | ✓ | O dan y trefniadau rheoli blaenorol, Pennaeth Nyrsio’r Gwasanaeth Cyfleusterau a Chymorth Clinigol oedd yn arwain y gwaith o sicrhau bod arferion maeth yn cael eu gweithredu. Yn y strwythur newydd, caiff y swyddogaeth hon ei chryfhau. Roedd y broses ddethol eisoes wedi cychwyn adeg yr archwiliad. |
| Mae disgrifiadau swyddi ac ystod cyflogau i staff arlwyo wedi’u cysoni ledled BIP. | ✓ | Er bod proses apelio yr Agenda ar gyfer Newid wedi creu peth anghysondeb, mae rheolwyr wedi nodi bod y rhan fwyaf o’r trefniadau wedi’u cysoni ledled BIP. |

| Arfer da | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae lefel absenoldebau oherwydd salwch ymhell o fewn y lefelau derbyniol ac yn cael eu rheoli'n dda. | ✓ | Yn ystod 2009 roedd cyfartaledd absenoldeb oherwydd salwch yn 7.5 y cant oedd yn uwch na tharged BIP o bump y cant, er bod lefelau salwch wedi gostwng ers y flwyddyn gynt. Nododd rheolwyr arlwyo fod canllawiau a gweithdrefnau cyfredol yn cefnogi'r gwaith o reoli presenoldeb yn effeithiol. |

## Caffael, cynhyrchu a rheoli costau

17. Mae BIP yn caffael bwyd yn effeithiol ac mae'n gyffredinol dda am reoli cost cynhyrchu ac arlwyo bwyd, ond mae'n gwastraffu llawer gormod o fwyd mewn rhai meysydd. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
    - mae trefniadau caffael BIP wedi'u rheoli'n dda ac mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y bwyd yn dod o ffynonellau diogel a dibynadwy;
    - mae deietegwyr yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o bennu manylebau a chynnwys maeth yr holl fwyd a'r nwyddau y mae BIP yn eu caffael;
    - nid yw BIP wedi datblygu ei bolisi cynaliadwyedd ei hun gan ddibynnu yn lle hynny ar drefniadau contract cenedlaethol;
    - mae trefniadau cynhyrchu bwyd wedi'u datblygu'n dda yn gyffredinol, ond maent yn dibynnu'n helaeth ar systemau papur â llaw yn hytrach na dulliau TG;
    - cafodd yr holl ryseitiau eu hasesu o ran maeth gan ddeietegwyr ac mae trefniadau cynhyrchu effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth;
    - ar hyn o bryd, mae prydau bwyd i staff yn cael £342,000 o gymhorthdal, a disgwylir i'r ffigwr hwn godi dros y flwyddyn ariannol nesaf yn sgil llai o incwm o beiriannau gwerthu;
    - mae rhai o'r mesurau allweddol i helpu i reoli costau eisoes ar waith ond gellid cryfhau trefniadau drwy ddatblygu polisi ar gymorthdalu; a
    - dangosodd ein harchwiliad fod lefelau gwastraff bwyd yn uwch na'r rhai a gofnodwyd gan BIP, sy'n dangos y gellid gwella effeithlonrwydd rhai o'r prosesau arlwyo.
18. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliadau hyn:

**Tabl 2: Caffael, cynhyrchu a rheoli costau**

| Arfer da | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Caffael** | | |
| Mae'r bwyd yn cael ei gaffael gan gyflenwyr a gymeradwywyd, yn unol â threfniadau a nodwyd yn Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan y GIG. | ✓ | Mae trefniadau caffael BIP ar gyfer arlwyo yn defnyddio Cyflenwyr Iechyd Cymru, a chontractau Cadwyn Gyflenwi Cymru Gyfan a'r GIG.<br>Mae ychydig o gynhyrchion, ar gyfer y bwytai i staff yn bennaf, sy'n cael eu prynu drwy gontractau BIP, sy'n defnyddio cyflenwyr a gymeradwywyd. |
| Mae trefniadau caffael cynaliadwy ar waith. | ✓/✗ | Nid yw BIP wedi sefydlu ei bolisi caffael cynaliadwy ei hun, er bod y contractau Cymru gyfan a'r GIG yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad. |
| Mae'r trefniadau caffael yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r bwydlenni a gynlluniwyd. | ✓ | Mae BIP wedi cyflwyno trefniadau cadarn i sicrhau bod y trefniadau caffael yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r bwydlenni a gynlluniwyd. Mae gan BIP bolisi cynhwysfawr clir ar gynnwys deietegwyr wrth ddewis nwyddau bwyd i'w prynu, sy'n arfer da. Yn ddiweddar, cytunodd yr adran gaffael ar gyfnod hysbysu 28 diwrnod o flaen llaw ar gyfer newid trefniadau gyda chyflenwyr. Mae trefniadau hefyd ar waith i'w gwneud hi'n bosibl prynu rhai cynhyrchion ymlaen llaw er mwyn sicrhau dilyniant yn y fwydlen am brisiau cystadleuol. |
| **Cynhyrchu** | | |
| Mae BIP yn gweithredu system arlwyo gyfrifiadurol i hwyluso'r gwaith o gynllunio a rheoli cynhyrchiant. | ✗ | Mae'r UGG yn defnyddio proses bapur â llaw sefydledig sy'n aml yn cymryd llawer o amser. Yn ddiweddar, cafodd y broses ei gwella drwy gyflwyno taenlenni. Er bod hyn yn gam cadarnhaol ymlaen, ni wnaed gwaith yn ddiweddar i asesu manteision effeithlonrwydd cyflwyno system arlwyo gyfrifiadurol lawn. Mae lle i adolygu'r gwaith fel rhan o ddatblygu'r strategaeth arlwyo. |
| Mae cleifion yn archebu prydau lai na 24 awr ymlaen llaw. | ✓ | Mae systemau ychydig yn wahanol ar waith yn y ddau ysbyty.<br>Yn YAC, mae bwyd wedi'i ailbaratoi yn cael ei baratoi ar y ward a chefnogir y gwaith o'i gynhyrchu gan ddogfen y cynllun gwelyau sy'n nodi deietau ac anghenion arbennig.<br>Yn YALI, caiff prydau bwyd y cleifion eu harchebu y diwrnod cynt neu ben bore. Defnyddir y wybodaeth gyfanredol hon gan y gegin ganolog i gynllunio cynhyrchiant a threfniant y troliau ar gyfer y wardiau. |
| Defnyddir bwydlenni safonol wedi'u costio er mwyn sicrhau cysondeb o ran ansawdd a chost. | ✓ | Mae'r UGG yn defnyddio ryseitiau safonol wedi'u costio ac a ddilyswyd yn ddeietegol. Caiff cydymffurfiaeth â'r ryseitiau ei monitro drwy'r broses reoli ansawdd. |
| Mae cynllun cynhyrchu ar waith i gyfeirio tasgau'r gegin. | ✓ | Mae'r cynllun cynhyrchu'n gweithredu saith diwrnod o flaen y fwydlen ac yn defnyddio system reoli fesul swmp. Cafodd y cynllun cynhyrchu ei gwtogi o 14 diwrnod er mwyn hwyluso gwaith y gwasanaeth yn YALI o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Ni chafodd y newid unrhyw effaith niweidiol ar allu UGG i fodloni gofynion cynhyrchu. |

| Arfer da | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynhyrchu** | | |
| Mae mesurau rheoli cyfrannau ar waith ac yn cael eu cefnogi gan hyfforddiant. | ✓ | Mae rheoli dognau yn cael ei fonitro, drwy'r broses ansawdd a chan oruchwylwyr cynhyrchu. |
| Mae ansawdd bwyd yn cael ei fonitro ar gamau allweddol yn y broses gynhyrchu. | ✓/✗ | Mae gan yr UGG drefniadau monitro ansawdd effeithiol ar waith.<br>Mae gan geginau ailbaratoi bwyd canolog YALI drefniadau monitro ansawdd effeithiol gan gynnwys cogydd sy'n blasu'r bwyd.<br>Mae trefniadau monitro ansawdd bwyd wedi'i ailbaratoi yn llai datblygedig yn YAC. Tynnodd y rheolwyr sylw at nifer o faterion, gan gynnwys cyflwr rhai cynhyrchion ar ôl eu hailbaratoi. Nid oedd rhai aelodau o'r staff arlwyo ar y ward bob amser yn ymwybodol fod angen coginio rhai o eitemau'r fwydlen am amserau gwahanol ac roedd hyn yn effeithio ar ansawdd terfynol y bwyd. |
| **Diogelwch bwyd** | | |
| Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch bwyd (ee archwilio tymheredd bwyd). | ✓ | Mae trefniadau cadarn ar waith a chanfyddodd ein harchwiliadau o ansawdd bwyd fod tymheredd bwyd poeth yn uwch na 70°C wrth orffen gweini bwyd. Roedd hyn gryn dipyn yn uwch na'r tymheredd gofynnol o 63°C. |
| Mae polisi Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) ar waith. | ✓ | Mae pob polisi bellach ar waith yn dilyn cwblhau polisi bwyty Heathfields YAC. |
| Mae'r cyfleusterau arlwyo yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan swyddogion iechyd yr amgylchedd lleol. | ✓ | Mae trefniadau arlwyo BIP yn cael eu harchwilio'n flynyddol gan y ddau awdurdod lleol (Cyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg). Er mwyn meithrin dull o weithio ar y cyd, mae'r uwch reolwyr wrthi'n gweithio gyda'r ddau gyngor i ddatblygu dull unedig o gynnal archwiliadau. |
| Rhoi camau ar waith mewn ymateb i argymhellion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. | ✓ | Ceir tystiolaeth fod materion risg uchel yn cael eu datrys yn gyflym, er bod rhai, fel y gwaith trwsio ar loriau'r UGG, yn cymryd mwy o amser i'w gorffen nag y bwriadwyd yn wreiddiol. |
| **Rheoli costau** | | |
| Mae system arlwyo gyfrifiadurol ar waith i gefnogi'r gwaith o reoli a monitro'r gwasanaeth. | ✗ | Nid oes system gyfrifiadurol ar waith. |
| Mae cost y gwasanaeth arlwyo yn wybyddus ac yn cael ei monitro. | ✓ | Mae costau gwasanaethau arlwyo i gleifion mewnol a staff yn cael eu cyfrif a'u rheoli ar wahân. Mae hyn yn arfer da. |

| Arfer da | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Rheoli costau** | | |
| Mae systemau archebu effeithiol a hyblyg yn eu lle rhwng y wardiau a'r adran arlwyo. | ✓ | Mae'r ddau ysbyty'n gweithredu systemau ychydig yn wahanol oherwydd y prosesau ailbaratoi bwyd gwahanol sy'n cael eu defnyddio.<br>Yn YAC, mae'r arlwywyr ar y ward yn defnyddio'u gwybodaeth a'u profiad ynghyd â'r prosesau cyfathrebu da a'r cynllun gwelyau i wneud penderfyniadau ynglŷn â chynhyrchu bwydlenni.<br>Yn YALI, gan fod y prydau'n cael eu hailbaratoi'n ganolog, mae staff gweini'r ward yn darparu'r gofynion ar gyfer y gegin ar ddechrau'r diwrnod yn seiliedig ar ddewisiadau'r cleifion oddi ar y fwydlen.<br>Mae'r ddwy system i'w gweld yn gweithio'n effeithiol, er bod y trefniadau yn YAC yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion y ward. |
| Ceir trefniadau effeithiol i fonitro gwastraff bwyd ar wardiau o ran:<br>• prydau bwyd heb eu gweini; a<br>• bwyd heb ei fwyta. | ✗ | Yn y BIP, mae staff arlwyo ar y ward yn monitro nifer y prydau bwyd na chaiff eu gweini. Mae ffigurau BIP ei hun yn awgrymu bod lefelau gwastraff bwyd heb ei gyffwrdd mor isel â 0.3 y cant a bod prydau heb eu gweini (gorgynhyrchiant) tua naw y cant. Mae hyn yn cyferbynnu â'n harchwiliad ni ein hunain oedd yn dangos bod mwy na 20 y cant o'r prydau heb eu gweini ar rai wardiau, a'r data a gyflwynwyd i Stadau Iechyd Cymru a oedd yn 7.5 y cant ar gyfartaledd. Gall yr ysbytai sy'n perfformio orau ac sy'n defnyddio systemau swmp-ddosbarthu gyflawni lefelau o bump y cant ac ar eu gwaethaf ni ddylent fynd yn uwch na 10 y cant.<br>Mae Ffigur 7 yn rhoi manylion pellach am y lefelau gwastraff a gofnodwyd yn ystod yr archwiliad ym mhob un o'r wardiau yr ymwelwyd â hwy, ac yn nodi arbedion dangosol y gellid eu cyflawni drwy sicrhau lefelau is o wastraff. |
| Mae yna ddull penodedig o sicrhau cymhorthdal/cyfraniad am wasanaethau nad ydynt ar gyfer cleifion. | ✗ | Nid oes polisi cymorthdalu ar waith er bod y gwasanaethau arlwyo yn rhedeg ar sail adennill costau.<br>Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau bwyty'n rhedeg ar golled o £342,000. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd y sefyllfa'n anoddach fyth yn 2009-10 yn sgil cyflwyno polisi peiriannau gwerthu iach GIG Cymru ac mae'r rheolwyr arlwyo'n disgwyl iddynt leihau incwm rhai safleoedd £100,000 a mwy. |
| Mae yna bolisi i brisio prydau nad ydynt ar gyfer cleifion. | ✓ | Mae gan BIP un polisi, sy'n cynnwys prisio dwy haen i staff ac i ymwelwyr, er bod profion gan yr archwilydd wedi canfod nad oedd hyn bob amser yn cael ei weithredu gan staff y bwyty ar gyfer ymwelwyr.<br>Yn YAC, mae'r gwasanaeth bwyty yn cystadlu â siopau yn y cyntedd ymgynnull, sy'n gosod pwysau ychwanegol ar gostau ar adegau pan na ellir cystadlu â hyrwyddiadau gwerthu ar golled. |

| Arfer da | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Rheoli costau** | | |
| Mae gwastraff yr ystafell fwyta'n cael ei fonitro. | ✓ | Mae trefniadau monitro lefel gwastraff cynhyrchu gan staff bwytai wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae staff y bwytai bellach yn fwy ymwybodol o'r angen i reoli costau a chyrraedd targedau. Er bod targedau incwm yn cael eu cyrraedd, mae gwaith a wnaed yn ddiweddar gan reolwyr y bwytai wedi dangos bod lle i wella o ran rheoli dognau drwy hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ymhlith staff y bwytai. |

## Dadansoddi costau'r gwasanaeth arlwyo

19. Mae'r rhesymau dros gostau gwasanaeth yn gymhleth ac yn adlewyrchu effeithiolrwydd caffael, cynhyrchu a rheoli, a'r lefelau staffio sydd eu hangen yn ddelfrydol i ddarparu'r gwasanaeth.

20. Hefyd, ni ddylid defnyddio cost fel yr unig ddangosydd o effeithiolrwydd y gwasanaethau gan fod y polisi maeth yn gosod y fframwaith ar gyfer darparu'r gwasanaeth a dylid ystyried dangosyddion ansawdd pwysig megis ansawdd maeth y bwyd, boddhad cleifion a pha mor dderbyniol yw'r gwasanaeth.

    Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd gydbwyso costau, gofynion maeth ac ansawdd wrth ddod i gasgliad am effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae'n bwysig cydnabod nad yw darparu gwasanaeth o ansawdd sy'n diwallu anghenion maeth bob amser yn golygu costau uchel.

21. Mae ein dadansoddiad o berfformiad ariannol y gwasanaeth arlwyo yn 2008-09 (Ffigur 2) wedi dangos bod cyfanswm costau'r gwasanaeth (hy, costau cleifion a rhai nad ydynt yn gleifion) wyth y cant yn uwch na chostau cyfartalog Cymru.

22. Wrth addasu'r costau hyn ar gyfer incwm, mae'r costau net i YAC yn uwch na chyfartaledd Cymru (Ffigur 3) a chostau staff oedd yn cyfrannu fwyaf at hyn (Ffigur 4).

23. Mae cost prydau bwyd cleifion yn amrywio rhwng y ddau safle oherwydd bod dwy system ailbaratoi wahanol yn cael eu defnyddio (Ffigur 5).

24. Mae sefyllfa fasnachu'r ddau wasanaeth bwyty ysbyty yn dangos cymhorthdal o £342,000 ar gyfer prydau brydau bwyd i staff.


25. Ceir dadansoddiad manylach o gostau'r ddau ysbyty yn Atodiad 2.

**Ffigur 2: Dadansoddiad o gostau'r gwasanaeth arlwyo 2008-09**

| Dadansoddiad | Cyfanswm cost fesul diwrnod claf (£) | Cost claf fesul diwrnod claf (£) | Sefyllfa fasnachu'r gwasanaeth i rai nad ydynt yn gleifion (£) |
|---|---|---|---|
| YAC | 11.50 | 11.22 | -171,000 |
| YALI | 10.65 | 9.74 | -171,000 |
| Gwasanaeth wedi'i gyfuno | 11.22 | 10.62 | -342,000 |
| Cymru | 11.08 | 10.04 | |


*Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Swyddfa Archwilio Cymru*

**Ffigur 3: Cost net y gwasanaeth arlwyo fesul diwrnod claf**





*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**Arddangosyn 4: Dosbarthiad gwariant**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwiliadau Cymru*

**Arddangosyn 5: Costau cymharol y gwasanaeth i gleifion**





*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**26.** Mae i bob un o'r dulliau o goginio a chyflenwi gwasanaeth ei gryfderau a'i wendidau ei hun, ac mae angen i fyrddau iechyd wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â pha ddull sydd fwyaf addas i'w sefydliad hwy. Mae costau cymharol y dulliau gwahanol hyn wedi'u crynhoi yn Arddangosyn 6.

**Arddangosyn 6: Cyfanswm cost arlwyo i gleifion fesul diwrnod claf 2008-09 yn ôl y dull o goginio a chyflenwi**

***SAW= staff arlwyo ar wardiau***




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**27.** Roedd ein hadolygiad yn cynnwys archwiliad undydd ar bob un o'r saith ward a olygai arsylwi ar un pryd bwyd, naill ai cinio neu swper, yn cael ei weini. Roedd yr archwiliad yn cynnwys asesiad o wastraff bwyd o brydau bwyd heb eu gweini a gwastraff ar blatiau. Mesurwyd gwastraff ar blatiau drwy wrthdroi canllawiau dogfennau asesu maeth yn *Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan*. Er enghraifft, byddai pryd o fwyd y cofnodwyd bod 75 y cant ohono wedi'i fwyta at ddibenion monitro maeth yn cyfateb i wastraff o 25 y cant ar blatiau. Hefyd, dim ond os oedd y gwastraff ar blatiau yn cynnwys y brif elfen brotein ddrutach yn hytrach na dim ond llysiau y defnyddiwyd y mesur hwn. Er nad yw'r dull hwn mor gadarn â'r dull dadansoddi pwysau bwyd, mae'n cynnig ffordd ddigon cyflym a sensitif o ganfod problemau.

**28.** Roedd lefelau gwastraff bwyd a gofnodwyd yn ystod yr archwiliad yn sylweddol uwch na'r rhai a gâi eu cofnodi drwy brosesau monitro mewnol BIP. Cadarnhaodd staff arlwyo ar wardiau nad oedd y lefelau o brydau heb eu gweini a gofnodwyd gennym yn anarferol gan awgrymu nad yw gwastraff yn cael ei gofnodi mor drylwyr ag y dylai.

29. Roedd canran y prydau heb eu gweini'n uchel ac yn amrywio'n sylweddol rhwng y wardiau yr ymwelwyd â hwy. Ar y gorau, câi dros un o bob 10 pryd o fwyd ei wastraffu am na châi ei weini, er y gallai fod bron yn hanner y prydau ar wardiau eraill yr ymwelwyd â hwy. Nododd yr archwiliad nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at y lefelau gwastraff uchel o brydau bwyd heb eu gweini. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Roedd nifer fawr o gleifion ar rai wardiau ag archwaeth gwael (E4 a W6) a phan roedd y troli bwyd yn cyrraedd, nid oeddynt yn gofyn am ddogn lawn er bod dogn llawn wedi'i baratoi ar eu cyfer yn y gegin. Nid yw archwaeth gwael yn ddigwyddiad anghyffredin ar y wardiau hyn a gallai fod cyfleoedd i leihau'r gwastraff hwn drwy wella cyfathrebu rhwng y ward a'r adran arlwyo ynglŷn â'r galw posibl cyn i'r troli gael ei baratoi.
- Mae'r gwasanaeth arlwyo yn YAC yn ailbaratoi bwyd ar y ward drwy ddefnyddio hambyrddau wyth cyfran, sy'n gallu arwain at orgynhyrchu ar adegau. Mae hyn yn llai o broblem i YALI lle mae'r cynhyrchu'n digwydd ar sail ysbyty cyfan. I oresgyn hyn, mae'r gwasanaethau sy'n perfformio orau bellach yn defnyddio amrywiaeth o hambyrddau gweini dau, pedwar ac wyth dogn er mwyn lleihau gwastraff.
- Mae'r Uned Derbyniadau Meddygol yn YAC yn amgylchedd brys cyfnewidiol iawn ac mae'n anodd rhagweld pa brydau fydd eu hangen gan fod trosiant y cleifion yn uchel.

30. Roedd lefelau gwastraff ar blatiau yn amrywio llawer ar draws y wardiau yr ymwelwyd â hwy ac fel arfer, roeddent yn uwch yn YALI. Gall y rhesymau pam nad yw cleifion yn bwyta'u bwyd fod yn gymhleth ac yn amrywiol ond yn aml, bydd yn adlewyrchu eu cyflwr meddygol a'u chwaeth bersonol. Fodd bynnag, gwelodd yr archwiliad fod y broses o reoli dognau yn llai effeithiol yn YALI ac roedd yn ffactor a gyfrannai at y lefelau uwch o wastraff ar blatiau yno, wrth i ddognau rhy fawr gael eu gweini i gleifion ag archwaeth gwael.

**Ffigur 7: Lefelau gwastraff prydau bwyd gan gynnwys rhagfynegiad o arbedion**

| Ward | Prydau heb eu gweini | Gwastraff ar blatiau | Cyfanswm gwastraff | Arbedion effeithlonrwydd posibl o brydau heb eu gweini (targed 5%) | Arbedion effeithlonrwydd posibl o wastraff ar blatiau (targed o 10%) |
|---|---|---|---|---|---|
| YAC C6 | 11% | 6% | 17% | | |
| YAC A2 | 19% | 19% | 38% | | |
| YAC A1 LINK a'r Uned Asesu Meddygol | 42% | 5% | 48% | | |
| YALI E7 | 14% | 13% | 27% | | |
| YALI W2 | 14% | 4% | 18% | | |
| YALI W6 | 44% | 32% | 76% | | |
| YALI E4 | 46% | 29% | 75% | | |
| **Cyfanswm** | **24%** | **15%** | **39%** | **£198,000** | **£52,000** |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

31. Ceir crynodeb o'r lefelau gwastraff bwyd a gofnodwyd yn ystod yr archwiliad yn Ffigur 4. Gall yr ysbytai sy'n perfformio orau oll gyda systemau arlwyo swmp-wasanaeth leihau lefelau gwastraff i bump y cant. Pe gellid gostwng lefelau gwastraff bwyd i'r lefel honno, amcangyfrifwn y gallai'r arbedion posibl fod cymaint â £198,000 y flwyddyn (yn seiliedig ar gostau darparu i gleifion BIP ar gyfer y ddau ysbyty). Mae arbedion pellach yn bosibl drwy leihau lefelau gwastraff ar blatiau. Er enghraifft, mae Ffigur 7 yn dangos y gellid arbed £52,000 pellach yn flynyddol pe bai'r gwastraff ar blatiau a welwyd yn ystod yr archwiliad yn cael ei ostwng i 10 y cant (sy'n darged gwastraff rhesymol .

## Dosbarthu bwyd i'r ward

32. Mae BIP yn rhoi bwyd o ansawdd da i gleifion er y gellid gwella profiac cleifion drwy newid rhai arferion presennol a gwella cyfathrebu rhwng y staff mewn rhai meysydd. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- roedd bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da ond ddim bob tro ar yr amser mwyaf priodol;
- nid oedd y ward na'r cleifion bob amser yn barod i dderbyn prydau bwyd;
- roedd y bwyd fel arfer wedi'i gyflwyno'n dda ac yn parhau mewn cyflwr da ar ddiwedd amser bwyd;
- er bod cleifion yn YAC bob amser yn derbyn y pryd cywir, nid oedd hyn yn wir yn YALI;
- roedd y rhan fwyaf o'r problemau gyda dosbarthu'r pryd cywir i glaf yn deillio o gyfathrebu gwael rhwng y staff a oedd yn rhan o'r broses; ac

- er bod staff arlwyo ar y ward yn gwneud cyfraniad pwysig at y gwaith o ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, mae lle i wella eu dealltwriaeth o anghenion maeth cleifion.

33. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 3: Dosbarthu bwyd i'r ward a'r claf**

| Arfer da | Ar waith yn YAC? | Ar waith yn YALI? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Mae'r bwyd yn cyrraedd y ward ar yr amser cywir. | ✓ | ✓ | Yn gyson, dechreuai'r gwaith o weini'r pryd ar yr amser a drefnwyd. Cadarnhaodd rheolwyr y wardiau nad oedd problemau ynghylch prydlondeb er y byddai rhai'n hoffi mwy o hyblygrwydd gyda'r amseru i gyd-fynd ag anghenion y ward. Roedd arolwg cleifion diweddar gan adran arlwyo YAC yn dangos bod 86 y cant o'r cleifion yn hapus gydag amseru prydau yn ystod y dydd. Roedd hwn yn ffigwr tebyg i'r 84 y cant a welwyd yn ein harolwg ni.<br>Mae sawl rheolwr ward wedi cymryd cyfrifoldeb personol dros ymgysylltu â'r adran arlwyo i drafod amserau bwyd gwahanol er mwyn sicrhau bod amser bwyd yn cyd-fynd â gweithgareddau eraill y ward yn well. Mae hyn yn enghraifft dda o egwyddorion *Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu* yn cael eu mabwysiadu'n ymarferol. |
| Mae'r bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da (ee ar y tymheredd cywir). | ✓ | ✓ | Gwelodd yr ymarfer arsylwi ar wardiau fod troliau'r wardiau'n cadw bwyd ar dymheredd addas, fel yr argymhellir. |
| Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn derbyn y pryd cywir. | ✓ | ✗ | Mae'r trefniadau yn YAC yn fwy cadarn nag yn YALI.<br>Yn YAC, mae'r arlwywr ar y ward yn dilyn cynllun gwelyau sy'n nodi gofynion deietegol pob claf.<br>Câi'r broses ei hatgyfnerthu hefyd gan gyfathrebu llafar da rhwng yr holl staff perthnasol.<br>Roedd y trefniant hwn hyd yn oed yn fwy effeithiol os oedd gan y ward gynorthwyydd deietegol penodedig.<br>Yn YALI, nid yw'r trefniadau hyn ar waith a rhaid dibynnu'n helaeth ar gyfathrebu rhwng staff y ward a'r staff arlwyo. Nid oedd y trefniant hwn bob amser mor effeithiol ag y gallai fod. Ar un ward, gwelsom nad oedd cleifion bob amser yn derbyn y pryd cywir.<br>Hefyd, mynegodd rheolwyr wardiau YALI bryder am ansawdd y gwasanaeth gyda'r nos i gleifion ar ddeietau arbennig, gyda rhai ddim yn derbyn pryd o gwbl weithiau am fod y bwyd ar y troli wedi dod i ben.<br>Nid oedd yr adran arlwyo'n ymwybodol o'r broblem ac roedd hi'n ymddangos nad oedd trefniadau ar waith i ddatrys problemau o'r fath. |

| Arfer da | Ar waith yn YAC? | Ar waith yn YALI? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Mae staff penodedig (staff gweini, staff cadw tŷ neu arlwywyr ar y ward) ar gael i helpu i weini'r prydau, ac maent yn gyfarwydd â phrosesau i ddiwallu anghenion maeth cleifion. | ✓/✗ | ✓/✗ | Mae gan bob ward staff arlwyo penodedig, er bod nifer fawr o'r rhain yn symud rhwng wardiau i gyflenwi yn sgil absenoldeb oherwydd salwch a gwyliau blynyddol. Gwelodd arolwg diweddar gan yr adran ddeietegol fod 20 y cant o'r staff yn symud rhwng wardiau ar unrhyw un adeg yn YALI.<br>Ychydig iawn o staff arlwyo ar wardiau oedd â dealltwriaeth sylfaenol o faeth ac roedd hynny wedi achosi problemau gyda chydymffurfio'n llawn â'r system hambwrdd coch a'r galw am fwyd mwtrin a deiet meddal. Roedd hyn yn fwy amlwg pan gâi staff llanw eu defnyddio a'u symud rhwng wardiau.<br>Roedd deietegwyr wedi cydnabod yr angen i wella hyfforddiant sylfaenol ac roedd rhaglen yn cael ei threialu yn YALI. Bydd angen ymestyn yr hyfforddiant i gynnwys staff YAC hefyd. |
| Mae staff sy'n rhan o'r gwaith o weini bwyd wedi cael hyfforddiant ar sut i gyflwyno bwyd. | ✓ | ✓ | Mae arlwywyr ar y wardiau yn derbyn hyfforddiant ar sut i gyflwyno bwyd. Er bod trefniadau monitro ar waith, awgrymai ein gwaith arsylwi ar y wardiau y gellid datblygu'r sgiliau hyn ymhellach. |
| Mae staff sy'n rhan o'r gwaith o weini bwyd wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd. | ✓/✗ | ✓/✗ | Mae'r holl staff arlwyo wedi cael hyfforddiant ar hylendid bwyd. Fodd bynnag, ar rai wardiau mae staff nyrsio'n helpu i weini bwyd i'r cleifion. Fel rheol, nid oedd y staff ward hyn wedi derbyn hyfforddiant hylendid bwyd sylfaenol. |
| Mae mannau cleifion yn cael eu paratoi i dderbyn prydau bwyd. | ✓/✗ | ✓/✗ | Roedd mwyafrif y wardiau yr ymwelwyd â hwy yn cael rownd dacluso rhwng 10am a 11am er mwyn paratoi amgylchedd y ward ar gyfer cinio. Fodd bynnag, wrth arsylwi ar y wardiau, gwelsom nad oedd hyn bob amser yn llwyddiannus gan fod byrddau rhai cleifion yn aml yn anniben a phadellau gwely yn dal arnynt mewn rhai achosion. |
| Mae cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta. | ✗ | ✗ | Ac eithrio W2, lle y caiff yr arfer ei annog, ni châi'r cleifion ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy gyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta.<br>Cafodd treial diweddar o ddosbarthu hancesi dwylo gwlyb cyn prydau bwyd ei ganslo oherwydd y gost. Er hynny, teimlai rheolwyr wardiau fod yr arfer yn hybu arferion hylendid da. |

| Arfer da | Ar waith yn YAC? | Ar waith yn YALI? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Mae'r bwyd yn cael ei ddosbarthu i'r claf yn gyflym ac yn effeithlon. | ✓ | ✓ | Yn YAC, mae'r gwasanaeth yn cymryd mwy o amser gan fod cleifion yn rhoi eu dewis yn y fan a'r lle. Yn y ddau ysbyty, gwelwyd arfer da ar waith gyda'r gwasanaeth yn dechrau ar ben gwahanol i'r ward ar wahanol adegau yn ystod y dydd. (Mae hyn yn sicrhau nad yw'r cleifion yn y gwelyau pellaf oddi wrth ddrws y ward bob amser yn cael llai o ddewis neu'n derbyn bwyd sydd wedi gwaethygu yn ei gyflwr.)<br>Mae'r rhan fwyaf o sesiynau gweini bwyd wedi'u cwblhau o fewn yr awr er bod hyn i'w weld yn cyflymu'n sylweddol pan oedd dau aelod o staff arlwyo neu nifer fawr o staff nyrsio'n helpu. |

34. Dylai adrannau arlwyo fod yn cynhyrchu prydau bwyd o ansawdd uchel i gleifion a dylai'r pryd gadw ei ansawdd wrth gael ei weini i glaf. Mae hyn yn golygu darparu digon o ddewis ar y fwydlen, a gweini prydau deniadol a blasus ar dymheredd addas. Dylid monitro ansawdd y seigiau'n barhaus er mwyn sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal a'u gwella.

35. Mae trefniadau monitro BIP yn dibynnu'n helaeth ar arolwg misol o foddhad cleifion a chaiff ei gefnogi gan raglen ffurfiol lle bydd rheolwyr a goruchwylwyr yn cynnal hapwiriadau ac yn monitro ansawdd.

36. Roedd ein hadolygiad yn cynnwys panel blasu bwyd oedd yn cynnwys archwilwyr, staff arlwyo, staff wardiau a staff deietegol. Trwy ddefnyddio system sgorio 1-5 syml, asesodd y panel y bwyd yn ôl:


- ei dymheredd a'i olwg;
- ei arogl, ei flas a'i ansawdd;
- a gyrhaeddodd yr eitem gywir a archebodd y claf oddi ar y fwydlen; a
- maint dogn cywir a archebwyd gan y claf.

37. Er y bydd dull o'r fath bob amser yn cynnwys rhywfaint o wrthrychedd, câi ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob un o sefydliadau'r GIG yr ymwelwyd â hwy. Mae'n gyfle, felly, i allu cymharu rhwng y gwahanol safleoedd yr ymwelwyd â hwy.

38. Mae uchafswm sgôr o 100 y cant yn bosibl pe bai'r holl feini prawf a brofwyd yn derbyn 'gradd 5'. Roedd sgôr YAC yn 76 y cant a sgôr YALI yn 77 y cant. Er nad yw'r sgoriau hyn yn rhoi achos sylweddol i bryderu, roeddent yn is na'r hyn a gofnodwyd mewn llawer o ysbytai eraill yng Nghymru (Ffigur 8).

39. Yn YALI, gallu i gynnal tymheredd bwyd, yn enwedig llysiau a dewisiadau bwyd meddal, ac ansawdd cyffredinol y bwyd a sgoriodd leiaf. Yn YAC, golwg a blas sgoriodd leiaf yn bennaf oherwydd ei fod yn cael ei ailbaratoi, a phroblemau gyda'r dewis o friwgig a llysiau dyfrllyd.

**Ffigur 8: Cyfanswm sgoriau'r paneli ansawdd bwyd ysbyty**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

## Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad

**40.** Mae rhai wardiau'n well nag eraill am sicrhau bod arlwyo a maeth yn cefnogi gwellhad cleifion gydag un ward yn perfformio gryn dipyn yn waeth na'r hyn sy'n dderbyniol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r agwedd at amser bwyd wedi'i ddiogelu yn amrywiol iawn ac nid yw'n cael ei weithredu mor eang ag y mae data BIP yn ei awgrymu;
- ceir tystiolaeth fod cleifion yn cael eu sgrinio am broblemau maeth ar adeg eu derbyn, er na ddefnyddir y dull a awgrymir gan Lywodraeth y Cynulliad;
- nid yw'r dull presennol o sgrinio maethol yn cynnwys asesiad o iechyd y geg a'r gallu i gyfathrebu gan fod y rhain yn asesiadau nyrsio ar wahân;
- roedd y cynorthwyydd deietegol wedi rhoi cymorth effeithiol gyda'r gwaith asesu a rheoli maeth;
- er bod y system hambwrdd coch wedi'i mabwysiadu'n eang, gall y ffordd y caiff ei defnyddio amrywio o un ward i'r llall;
- ar y cyfan, mae trefniadau arlwyo BIP yn cynnig dewis ac yn ymateb yn effeithiol i'r gwaith o ddiwallu anghenion yr unigolyn;
- mae cymeriant bwyd a diod cleifion yn cael ei gofnodi'n rheolaidd, er nad yw siartiau cymeriant bob amser yn cael eu llofnodi gan nyrsys cofrestredig ar ddiwedd pob shifft;
- nid oes gan bob ward glorian bwyso sy'n gweithio bob amser oherwydd ei bod hi'n cymryd amser i drwsio cloriannau sydd wedi torri;

- pan fo rheolwyr wardiau wedi ysgwyddo cyfrifoldeb personol dros wella'r trefniadau, mae gwaith rheoli maeth wedi gwella; ac
- mae'r arfer presennol o roi sganiau radioleg i gleifion mewnol ar ddiwedd sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn yn golygu fod rhai cleifion yn aml yn colli pryd bwyd.

41. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliadau hyn.

**Tabl 4: Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad**

| Arfer da | Ar waith yn YAC? | Ar waith yn YALI? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Mae cleifion yn cael eu pwyso a'u sgrinio am broblemau maeth o fewn 24 awr i gael eu derbyn, drwy ddefnyddio offeryn sgrinio maethol wedi'i ddilysu. | ✓ | ✓ | Nid yw BIP yn defnyddio'r offeryn MUST[1]. Yn hytrach, mae'n defnyddio ei offeryn WAASP[2] achrededig ei hun. Nid yw'r offeryn hwn yn defnyddio Mynegai Màs y Corff (BMI) ar y cam asesu gan nad yw taldra yn cael ei gofnodi fel mater o drefn. Wedi i gleifion gael eu hatgyfeirio atynt, mae deietegwyr yn cyfrif y BMI drwy ddefnyddio dull trosi taldra ulna. Fel arfer, nid oes tapiau mesur sy'n trosi ar gael i staff nyrsio a dim ond tapiau mesur hosanau TED sydd i'w cael ar wardiau, sydd mewn modfeddi.<br>Mae pob claf yn cael ei sgrinio o fewn 24 awr a'r mwyafrif ohonynt ar adeg eu derbyn. Hefyd, yn yr uned derbyniadau meddygol, mae cynorthwywyr deietegol penodedig yn sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal ar y cleifion wrth iddynt gael eu derbyn.<br>Nid yw'r dull presennol o sgrinio maethol yn cynnwys asesiad o iechyd y geg a'r gallu i gyfathrebu. Mae'r rhain yn asesiadau nyrsio ar wahân. Mae BIP yn cydnabod y diffyg hwn ac mae cynlluniau ar y gweill i gyflwyno'r asesiad.<br>Pan fo angen trwsio cyfarpar pwyso, bydd rheolwyr wardiau'n mynd drwy'r adran gaffael ac mae hynny'n creu oedi, gyda'r rhan fwyaf o waith trwsio'n cymryd oddeutu wythnos. Mewn byrddau iechyd eraill, pan fo rheolwyr wardiau'n cysylltu'n uniongyrchol â'r sawl sy'n trwsio, mae gwaith trwsio'n cymryd deuddydd ar gyfartaledd. |

[1] Cynlluniwyd yr Offeryn Sgrinio Unffurf ar gyfer Diffyg Maeth (MUST) gan Grŵp Cynghori ar Ddiffyg Maeth Cymdeithas Brydeinig Maeth drwy'r Gwythiennau a'r Ymysgaroedd, fel ffordd effeithiol o nodi oedolion (yn enwedig yr henoed) sy'n dioddef diffyg maeth, yn wynebu risg o ddiffyg maeth, neu sy'n ordew, Mae'r offeryn hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyfer cyflwyno cynllun trin effeithiol ac addas.

[2] Weight Appetite Ability to Eat – Stress Fractures and Pressure Sores, offeryn asesu maeth a ddilyswyd gan y BIP.

| Arfer da | Ar waith yn YAC? | Ar waith yn YALI? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Lle bo'n briodol, mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio at ddeietegydd, a/neu at therapydd lleferydd ac iaith. | ✓/✗ | ✓ | Rhaid atgyfeirio pob claf sy'n cael sgôr WAASP o saith at ddeietegydd. Ar adeg yr archwiliad, oherwydd prinder staff deietegol, roedd deietegwyr wedi gofyn i un ward beidio atgyfeirio cleifion am asesiad oni fyddai'r sgôr yn 14 neu'n uwch. Mae hyn yn creu pryder nad yw cleifion a ddylai fod yn cael asesiad deietegol yn cael yr ymyrraeth bwysig hon. |
| Mae cynllun gofal maeth yn cael ei baratoi a'i weithredu ar sail sgôr risg maeth y claf. | ✓ | ✓ | Roedd cynlluniau maeth ar waith a oedd yn cydymffurfio â Llwybr Gofal Maeth Llywodraeth y Cynulliad.<br>Mae'r 'diwrnodau pwyso' wythnosol a gyflwynwyd ar wardiau fel A1 wedi gwella'r drefn asesu maeth. |
| Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer amser bwyd wedi'i ddiogelu. | ✓/✗ | ✓/✗ | Mae BIP wedi nodi fod disgwyl i'r rhan fwyaf o'r wardiau gyflwyno amser bwyd wedi'i ddiogelu.<br>Er i ni weld fod rhai wardiau'n defnyddio amser bwyd wedi'i ddiogelu yn effeithiol, nid oedd hyn bob amser yn wir gan fod rhai wardiau wedi rhoi'r gorau i'r arfer ar ôl ei gyflwyno.<br>Nododd BIP fod 62 y cant o'i wardiau yn gweithredu trefn amser bwyd wedi'i ddiogelu ar hyn o bryd. Mae ein gwaith yn awgrymu bod y ffigwr yn amcangyfrif rhy uchel o'r sefyllfa go iawn, ac mewn gwirionedd mae nifer y wardiau sy'n gweithredu amser bwyd wedi'i ddiogelu yn iawn yn debyg o fod yn llawer is. |
| Mae dewis da o fwyd i gleifion ar y fwydlen. | ✓ | ✓ | Mae o leiaf ddau brif ddewis a dewis llysieuol ar y fwydlen sy'n cylchdroi bob tair wythnos.<br>Fodd bynnag, roedd sawl rheolwr ward wedi nodi bod y dewis o brydau meddal a bwyd piwrî yn ailadroddus. |
| Mae dewisiadau llysieuol ar y fwydlen. | ✓ | ✓ | Mae dewis llysieuol ar gael bob amser. |
| Mae'r fwydlen yn cynnwys dewisiadau i gleifion o gefndiroedd crefyddol/ethnig penodol. | ✓ | ✓ | Mae gan BIP brydau bwyd kosher a halal ardystiedig ar gael ar gais. Mae'r drefn hon wedi sefydlu ers amser a thynnwyd sylw ati fel enghraifft o arfer gorau yn archwiliad gwreiddiol 2000. |

| Arfer da | Ar waith yn YAC? | Ar waith yn YALI? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Mae trefniadau ar waith i nodi cleifion a allai fod angen cymorth arbennig i fwyta eu bwyd. | ✓ | ✓ | Mae'r rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r wardiau oedolion yn gweithredu'r system hambwrdd coch i nodi pa gleifion sydd angen cymorth i fwyta. Fodd bynnag, gall y dull o weithredu'r system hambwrdd coch amrywio rhwng wardiau unigol sy'n gallu achosi dryswch pan fo staff arlwyo'n symud i weithio mewn wardiau gwahanol.<br>Dangoswyd bod cyfraniad y cynorthwyydd deietegol o fudd mawr i nodi pa gleifion sydd angen cymorth ac i sicrhau eu bod yn ei dderbyn.<br>Ar hyn o bryd, mae ward W2 yn treialu system oleuadau traffig am nad oedd rhai cleifion yn hoff o'r system hambwrdd coch. Mantais y dull hwn yw ei fod yn tynnu sylw staff meddygol at broblemau maeth cleifion. |
| Mae cleifion yn cael cymorth i fwyta lle bo angen. | ✓ | ✓/✗ | Yn y rhan fwyaf o achosion, câi'r cleifion help, er nad oedd hyn bob amser yn wir ar un ward. Gwelwyd un claf na chafodd gymorth er bod staff nyrsio ar gael.<br>Ar ward W2 roedd rheolwr y ward wedi creu dwy rôl nyrs cyswllt maeth a oedd yn sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael i staff a chleifion y ward yn ystod y dydd dros y ddwy shifft ddydd. Mae hyn yn arfer effeithiol. |
| Mae cleifion yn gallu cael byrbrydau pan nad yw hi'n amser bwyd. | ✓/✗ | ✓/✗ | Mae amrywiaeth o frechdanau ar gael ar wardiau ac roedd rheolwyr wardiau'n hyderus bod y trefniadau hyn yn diwallu anghenion cleifion ac yn cael eu cefnogi gan yr archwiliad hanfodion gofal diweddar a nododd fod 95 y cant o gydymffurfiaeth â'r safon arbennig hon.<br>Mae'r darganfyddiad hwn yn cyferbynnu â chanfyddiadau ein harolwg cleifion lle nad oedd nifer o gleifion (65 y cant) yn ymwybodol fod byrbrydau ar gael yn ystod y dydd. |
| Mae cymeriant bwyd cleifion yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy ddefnyddio'r Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan. | ✓ | ✓ | Gwelwyd bod siart cofnodi bwyd wedi'i chwblhau ar gyfer cleifion risg canolig a risg uchel.<br>Roedd posteri esboniadol i'w gweld ar y wardiau ac yn y nodiadau monitro. |
| Mae'r siart cofnodi bwyd yn cael ei gydlofnodi gan nyrs gofrestredig ar ddiwedd pob shifft. | ✓/✗ | ✓/✗ | Er bod mwyafrif y rheolwyr wardiau wedi nodi bod nyrsys cofrestredig yn adolygu siartiau, nododd archwilwyr nad oeddynt bob amser yn cael eu cydlofnodi i gadarnhau bod hyn wedi'i wneud. |

| Arfer da | Ar waith yn YAC? | Ar waith yn YALI? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Mae siartiau mewnbwn ac allbwn hylifau dyddiol ac wythnosol yn cael eu defnyddio. | ✓ | ✓ | Mae siartiau hylif yn cael eu defnyddio er nad yw BIP wedi dechrau defnyddio siart Cymru gyfan. Mae hyn yn arfer derbyniol gan fod BIP yn dilyn canllawiau Llywodraeth y Cynulliad drwy ddefnyddio'r stoc o siartiau sydd ar gael (mae'r un wybodaeth yn cael ei chofnodi ar y ddau siart). |
| Mae siartiau mewnbwn ac allbwn hylifau wythnosol yn cael eu cydlofnodi gan nyrs gofrestredig unwaith y dydd. | ✓/✗ | ✓/✗ | Er bod mwyafrif y rheolwyr wardiau'n hyderus bod nyrsys cofrestredig yn adolygu siartiau, nid oeddynt yn cael eu cydlofnodi bob amser i gadarnhau bod hyn wedi'i wneud. |

## Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth

42. Mae boddhad cleifion ag arlwyo mewn ysbytai yn gymharol isel a chan nad yw'n rhannu'r safbwyntiau y mae'n eu casglu gan gleifion rhwng grwpiau o staff, mae BIP yn colli cyfle i ddysgu a gwella. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
    - cafodd safbwyntiau cleifion ar y gwasanaethau bwyd ac arlwyo eu casglu a'u dadansoddi ar wahân gan y staff arlwyo a'r staff nyrsio;
    - nid yw profiad rheolwyr wardiau a'r gwasanaeth arlwyo'n cael ei gydgysylltu a'i rannu rhwng grwpiau gwahanol o staff; ac
    - mae'r arolwg cleifion a gynhaliwyd fel rhan o'r archwiliad hwn wedi amlygu amrywiaeth o safbwyntiau sydd angen eu hystyried fel rhan o'r gwaith cynllunio a monitro arferol.

43. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 5: Casglu barn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo**

| Arfer da | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae yna weithgareddau rheolaidd i gasglu barn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo, a'u profiad ohonynt. | ✓ | Mae'r adran arlwyo'n cynnal arolygon boddhad cleifion misol rheolaidd. Adolygir canlyniadau'r arolygon hyn yng nghyfarfodydd y tîm arlwyo.<br>O leiaf unwaith y flwyddyn, mae rheolwyr wardiau hefyd yn gofyn am farn cleifion fel rhan o'r rhaglen archwilio Hanfodion Gofal sy'n cwmpasu safon 9. |
| Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynrychioli mewn grwpiau cynllunio arlwyo. | ✓/✗ | Er bod y grwpiau arlwyo strategol a maeth yn cynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned, nid oes trefniadau ar waith i gynnwys grwpiau cleifion yn uniongyrchol. |
| Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cymryd rhan mewn adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth. | ✓/✗ | Yn ddiweddar, cafodd cleifion eu cynnwys ar banel blasu bwyd piwrî a bwyd meddal BIP. Roedd yn brofiad gwerthfawr y dylid ei efelychu yn y dyfodol. |
| Mae trefniadau effeithiol a chydgysylltiedig ar waith i ddefnyddio barn cleifion a phrofiadau grwpiau staff i gefnogi'r gwaith o wella'r gwasanaeth. | ✗ | Nid oedd canlyniadau arolygon misol o foddhad cleifion yr adran arlwyo yn cael eu rhannu'n rheolaidd â rheolwyr y wardiau, ac yn yr un modd, nid oedd archwiliadau safon 9 yr hanfodion gofal nyrsio eu rhannu â'r adran arlwyo.<br>Hyd yn ddiweddar, ychydig o gyfle a gâi rheolwyr wardiau i rannu'r materion sy'n codi o archwiliadau a'r enghreifftiau niferus o arfer da sy'n datblygu drwy strwythur cyfarfodydd sefydledig ar lefel y ward.<br>Mae'r sefyllfa hon bellach yn newid. |

44. Mae dadansoddiad cryno (Ffigur 9) o safbwyntiau cleifion a gasglwyd yn ystod yr archwiliad yn awgrymu bod lle i BIP wella'r trefniadau asesu maeth a chynnwys cleifion ym maes iechyd maethol, gan na allai pob claf gofio cael ei bwyso neu siarad â nyrs neu ddeietegydd am ei anghenion maeth.

45. Ychydig o gleifion sy'n cael cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta pryd o fwyd, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr archwiliad hanfodion gofal diweddar.

46. Mae cyfradd boddhad cyffredinol â'r gwasanaeth yn isel, ac mae'n arbennig o isel yn YAC a sgoriodd 58 y cant. Mae'r canfyddiad hwn yn cyferbynnu â chanfyddiadau'r adran arlwyo ei hun, lle'r oedd cyfradd boddhad cyffredinol yn 82 y cant, a'r archwiliad hanfodion gofal (79 y cant). Mae hyn yn awgrymu y gallai fod lle i'r adran arlwyo edrych ar ansawdd prydau. Yn ogystal â'r trefniadau monitro ansawdd a drafodwyd yn flaenorol, mae cyflwyno paneli ar draws y gwasanaeth, gan gynnwys cleifion, fel y rhai a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus wrth asesu contractau bwyd piwrî a bwyd meddal, yn un dull o weithredu y gellid ei fabwysiadu.

47. Hefyd, gallai fod manteision o integreiddio safon gofal iechyd 9 ac arolygon arlwyo mewnol gyda'i gilydd yn well, nid yn unig i osgoi dyblygu gwaith ond er mwyn olrhain cynnydd trwy'r flwyddyn.

**Ffigur 9: Canfyddiadau allweddol yr arolwg cleifion**

| Cwestiwn | YALI | YAC | Cyfanswm | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Canran yr ymatebwyr a gafodd eu pwyso yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty | 80% | 70% | 74% | 67% |
| Canran yr ymatebwyr y mesurwyd eu taldra yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty | 50% | 21% | 28% | 32% |
| Canran yr ymatebwyr lle roedd aelod o staff yr ysbyty wedi trafod eu hanghenion deietegol â hwy | 70% | 19% | 37% | 41% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn gallu dewis maint dogn y pryd bwyd | 65% | 45% | 53% | 65% |
| Canran yr ymatebwyr a gafodd gyfle i olchi eu dwylo cyn iddynt fwyta eu bwyd | 70% | 59% | 63% | 84% |
| Canran yr ymatebwyr a deimlai fod y fan lle roeddent yn bwyta'n lân ac yn daclus | 100% | 76% | 91% | 94% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon ar yr amser yr oedd prydau bwyd yn cael eu gweini | 100% | 77% | 84% | 93% |
| Canran yr ymatebwyr a gollodd bryd o fwyd, ac a gafodd un arall yn ei le | 85% | 62% | 68% | 80% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon â'r bwyd a gawsant | 85% | 58% | 68% | 82% |

Atodiad 1

## Y dull archwilio

Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol: 'A yw ysbytai yng Nghymru yn darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy'n cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig?'

Mae'r is-gwestiynau canlynol yn sail i'r cwestiwn cyffredinol:

- A yw'r trefniadau cynllunio strategol ar gyfer arlwyo yn effeithiol?
- A yw'r trefniadau caffael yn effeithiol ac yw'r bwyd yn dod o gyflenwyr diogel?
- A yw prosesau cynhyrchu bwyd yn cael eu rheoli'n dda?
- A oes trefniadau effeithlon ar waith ar gyfer dosbarthu'r bwyd i'r wardiau ac i'r claf?
- A yw'r trefniadau ar y wardiau'n helpu i ddiwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi eu gwellhad?
- A oes trefniadau effeithiol ar waith i ymgynghori â chleifion ynglŷn â'r gwasanaeth arlwyo a dderbyniant?

Datblygwyd modiwl archwilio ar gyfer pob un o'r is-gwestiynau a restrir uchod.

**Ffigur 6: Modiwlau archwilio**

| Modiwl | Offer archwilio |
|---|---|
| **Modiwl 1:** Trefniadau cynllunio strategol | Dadansoddiad o gost<br>Arolwg o brofiadau cleifion<br>Rhestr wirio trefniadau rheoli<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 2:** Trefniadau caffael | Dadansoddiad o gost<br>Rhestr wirio trefniadau rheoli<br>Archwiliad o'r broses<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 3:** Rheoli'r prosesau cynhyrchu | Dadansoddiad o gost<br>Arolwg o brofiadau cleifion<br>Rhestr wirio trefniadau rheoli<br>Archwiliad o'r broses<br>Arolwg ansawdd bwyd<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 4:** Trefniadau dosbarthu i wardiau | Arolwg o brofiadau cleifion<br>Offeryn arsylwi ar wardiau<br>Arolwg ansawdd bwyd<br>Cyfweliadau |

| Modiwl | Offer archwilio |
|---|---|
| **Modiwl 5:** Cefnogi gwellhad | Arolwg o brofiadau cleifion<br>Offeryn arsylwi ar wardiau<br>Offeryn arsylwi ar wastraff<br>Arolwg ansawdd bwyd<br>Offeryn asesu maeth<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 6:** Ymgysylltu â chleifion | Arolwg o brofiadau cleifion<br>Cyfweliadau |

# Cymharu costau


**Cymharu costau**

**Ysbyty:** **Ysbyty Athrofaol Cymru**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Materion Allweddol**

Mae cyfanswm cost net fesul diwrnod claf i'r ysbyty yn £11.50 o gymharu â ffigwr o £11.22 ar gyfer BILl a ffigwr o £11.08 ar gyfer Cymru.

Mae'r gost yn cynnwys cymhorthdal o £0.13 am bob £1.00 sy'n ei gwario ar wasanaethau arlwyo ar gyfer rhai nad ydynt yn gleifion.




**Allwedd**
**Ffigurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r CILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.

**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILi/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Ni chymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo.

## Costau Arlwyo ar gyfer Cleifion

**Ysbyty:** **Ysbyty Athrofaol Cymru**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Materion Allweddol**

Cost wirioneddol fesul diwrnod claf yw £11.04 o gymharu â ffigwr o £10.62 ar gyfer y BILl/Ymddiriedolaeth a ffigwr o £10.04 ar gyfer Cymru

**Cyfanswm Costau Arlwyo ar gyfer Cleifion fesul Diwrnod Claf**
**£11.04** (Y)
£10.62 (B)
£10.04 (C)

Cyfanswm Costau Arlwyo ar gyfer Cleifion
**£4,050,536** (Y)

Costau Staff Arlwyo ar gyfer Cleifion
**£3,227,065** (Y)

Costau Nwyddau Arlwyo ar gyfer Cleifion
**£622,268** (Y)

Costau Eraill Arlwyo ar gyfer Cleifion
**£201,203** (Y)

Cyfanswm Nifer Dyddiau Cleifion
**366,599** (Y)

Nifer Dyddiau Cleifion Mewnol
**348,305** (Y)

Nifer Dyddiau Cleifion dydd ac Achosion Dydd
**18,294** (Y)

Cost fesul Diwrnod Claf

| | Staff | Nwyddau | Eraill |
|---|---|---|---|
| (Y) | **£8.80** | **£1.69** | **£0.54** |
| (B) | £8.24 | £1.96 | £0.42 |
| (C) | £6.04 | £3.17 | £0.38 |

**Prif ddull coginio:** Coginio/rhewi wedi'i baratoi ar y safle a'i gynhyrchu drwy'r UGG yn YAC
**Ailbaratoi bwyd:** Ar y ward
**Cyflenwi gwasanaeth:** Swmp-ddosbarthu i wardiau
**Golchi llestri:** Golchi llesti ar y ward

**Allwedd**
**Ffigurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r CILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.

**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILi/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Ni chymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo.

## Costau Gweithgarwch nad yw ar gyfer Cleifion

**Ysbyty:** **Ysbyty Athrofaol Cymru**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Materion Allweddol**

Nid yw'r gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion yn gwneud cyfraniad i gostau'r ysbyty

Mae gwasanaeth arlwyo'r Ysbyty yn rhoi cymhorthdal o £0.13 am bob £1.00 sy'n cael ei gwario ar brydau nad ydynt ar gyfer cleifion

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau Staffio Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£735,671** (Y) | Cost am bob £ o Incwm | **£0.62** (Y) / £0.64 (B) / £0.71 (C) |
| Costau Nwyddau Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£583,493** (Y) | | **£0.49** (Y) / £0.50 (B) / £0.51 (C) |
| Costau Eraill Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£32,417** (Y) | | **£0.02** (Y) / £0.06 (B) / £0.06 (C) |
| Cyfanswm | | | **£1.13** (Y) / £1.20 (B) / £1.28 (C) |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm Costau Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£1,351,581** | (Y) |
| Incwm Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£1,180,053** | (Y) |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfraniad** | **-£171,528** | (Y) |
| | -£342,242 | (B) |
| | -£2,671,103 | (C) |

| Cyfraniad am bob £ o Incwm | | Cyfraniad fel % o gyfanswm costau rhai nad ydynt yn Gleifion | |
|---|---|---|---|
| **-£0.13** | (Y) | **-12.7%** | (Y) |
| -£0.20 | (B) | -17.3% | (B) |
| -£0.28 | (C) | -22.7% | (C) |

| **Peiriannau Gwerthu** | |
|---|---|
| Costau Nwyddau | £47,730.00 |
| Costau Rhentu | £4,964.00 |
| **Cyfanswm Costau** | £52,694.00 |
| **Incwm** | £95,915.00 |

**Allwedd**
**Ffigurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r CILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.

**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILi/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Ni chymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo.


## Cyfanswm Costau Arlwyo

**Ysbyty:** **Ysbyty Llandoche**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Materion Allweddol**

Mae cyfanswm cost net fesul diwrnod claf i'r ysbyty yn £10.65 o gymharu â ffigwr o £11.22 ar gyfer BILl a ffigwr o £11.08 ar gyfer Cymru.

Mae'r gost yn cynnwys cymhorthdal o £0.36 am bob £1.00 sy'n ei gwario ar wasanaethau arlwyo ar gyfer rhai nad ydynt yn gleifion.




**Allwedd**
**Ffigurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r CILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.


**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILi/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Ni chymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo.

## Costau Arlwyo ar gyfer Cleifion

**Ysbyty:** **Ysbyty Llandoche**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Materion Allweddol**

Cost wirioneddol fesul diwrnod claf yw £9.74 o gymharu â ffigwr o £10.62 ar gyfer y BILl/Ymddiriedolaeth a ffigwr o £10.04 ar gyfer Cymru




| | |
|---|---|
| **Prif ddull coginio:** | Coginio/rhewi yn allanol o fewn y Bwrdd Iechyd, o'r UGG yn YAC |
| **Ailbaratoi bwyd:** | Yn ganolog cyn ei ddosbarthu |
| **Cyflenwi gwasanaeth:** | Swmp-ddosbarthu i wardiau |
| **Golchi llestri:** | Golchi llestri ar y ward |

**Allwedd**
**Ffigurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r CILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.

**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILi/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Ni chymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo.

## Costau Gweithgarwch nad yw ar gyfer Cleifion

**Ysbyty:** **Ysbyty Llandoche**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Materion Allweddol**

Nid yw'r gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion yn gwneud cyfraniad i gostau'r ysbyty

Mae gwasanaeth arlwyo'r Ysbyty yn rhoi cymhorthdal o £0.36 am bob £1.00 sy'n cael ei gwario ar brydau nad ydynt ar gyfer cleifion

**Cyfraniad**
**-£170,714** (Y)
-£342,242 (B)
-£2,671,103 (C)

Cyfanswm Costau Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion
**£621,231** (Y)

Incwm Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion
**£450,517** (Y)

| | | | **Cost am bob £ o Incwm** | |
|---|---|---|---|---|
| Costau Staffio Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£310,803** (Y) | | **£0.68** (Y)<br>£0.64 (B)<br>£0.71 (C) | |
| Costau Nwyddau Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£240,237** (Y) | | **£0.53** (Y)<br>£0.50 (B)<br>£0.51 (C) | |
| Costau Eraill Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£70,191** (Y) | | **£0.15** (Y)<br>£0.06 (B)<br>£0.06 (C) | |
| | | **Cyfanswm** | **£1.36** (Y)<br>£1.20 (B)<br>£1.28 (C) | |

Cyfraniad am bob £ o Incwm
**-£0.36** (Y)
-£0.20 (B)
-£0.28 (C)

Cyfraniad fel % o gyfanswm costau rhai nad ydynt yn Gleifion
**-27.5%** (Y)
-17.3% (B)
-22.7% (C)

| **Peiriannau Gwerthu** | |
|---|---|
| Costau Nwyddau | £24,049.00 |
| Costau Rhentu | £11,497.00 |
| **Cyfanswm Costau** | £35,546.00 |
| | |
| **Incwm** | £44,951.00 |

**Allwedd**
**Ffigurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r CILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.

**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILi/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Ni chymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo.

Atodiad 3

## Profiad cleifion

Nifer yr arolygon a ddychwelwyd:

- YALI 20
- YAC 38
- Cymru 690

| Cwestiwn | YALI | YAC | Cyfanswm | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Canran yr ymatebwyr a gafodd eu pwyso yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty? | 80% | 70% | 74% | 67% |
| Canran yr ymatebwyr y mesurwyd eu taldra yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty? | 50% | 21% | 28% | 32% |
| Canran yr ymatebwyr lle roedd aelod o staff yr ysbyty wedi trafod eu hanghenion deietegol â hwy? | 70% | 19% | 37% | 41% |
| Canran yr ymatebwyr a allai ddeall y fwydlen? | 100% | 100% | 100% | 96% |
| Canran yr ymatebwyr a deimlai fod digon o ddewis ar y fwydlen? | 74% | 61% | 65% | 73% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn gallu dewis maint dogn? | 65% | 45% | 53% | 65% |
| Canran yr ymatebwyr a gredai fod y fwydlen yn newid yn ddigon aml? | 65% | 66% | 66% | 67% |
| Canan yr ymatebwyr a oedd wedi cael digon o ddewis ar y fwydlen o ran eu credoau crefyddol? | 100% | 100% | 100% | 96% |
| Canran yr ymatebwyr llysieuol neu figan a oedd wedi cael digon o ddewis i ddiwallu eu hanghenion? | 94% | 97% | 96% | 95% |
| Canran yr ymatebwyr a gafodd gyfle i olchi eu dwylo cyn iddynt fwyta eu bwyd? | 70% | 59% | 63% | 84% |
| Canran yr ymatebwyr a deimlai fod y fan lle roeddent yn bwyta eu bwyd yn lân ac yn daclus? | 100% | 76% | 91% | 94% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon ar yr amser yr oedd prydau bwyd yn cael eu gweini? | 100% | 77% | 84% | 93% |
| Canran yr ymatebwyr na tharfwyd ar eu pryd o fwyd gan nyrsys neu feddygon yn eu trin neu eu hasesu? | 100% | 100% | 100% | 88% |
| Canran yr ymatebwyr a gafodd ddigon o amser i orffen eu pryd o fwyd? | 100% | 95% | 97% | 97% |
| Canran yr ymatebwyr a gollodd bryd o fwyd, ac a gafodd un arall yn ei le? | 85% | 62% | 68% | 80% |
| Canran yr ymatebwyr a gafodd y pryd o fwyd a archebwyd ganddynt? | 100% | 88% | 93% | 91% |

| Cwestiwn | YALI | YAC | Cyfanswm | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Canran yr ymatebwyr yr oedd ffrwythau ffres ar gael iddynt? | 75% | 48% | 59% | 73% |
| Canran yr ymatebwyr yr oedd diod ar gael iddynt rhwng prydau bwyd? | 95% | 73% | 81% | 90% |
| Canran yr ymatebwyr yr oedd byrbrydau ar gael iddynt rhwng prydau bwyd? | 58% | 22% | 35% | 38% |
| Canran yr ymatebwyr yr oedd dŵr ffres ar gael iddynt drwy’r dydd? | 100% | 84% | 89% | 97% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd wedi cael bwyd ar y tymheredd y byddent wedi’i ddisgwyl? | 90% | 70% | 76% | 83% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd wedi cael digon o fwyd? | 100% | 74% | 83% | 87% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn hapus â blas y bwyd a roddwyd iddynt? | 85% | 70% | 76% | 83% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn hapus ag ymddangosiad y bwyd a roddwyd iddynt? | 89% | 70% | 76% | 84% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn hapus bod y bwyd a roddwyd iddynt yn iach? | 80% | 74% | 76% | 86% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon â’r bwyd a gawsant? | 85% | 58% | 68% | 82% |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk